

**Crynodeb o Fil**  
**Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Ieithoedd Swyddogol)**

Chwefror 2012

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
**[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

E-bost: **[Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)**  
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/0108

**Crynodeb o Fil**  
**Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Ieithoedd Swyddogol)**

Chwefror 2012

Owain Roberts

Rhif dogfen: 12/005

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil



# Cynnwys

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Llinell amser</b> .....	<b>2</b>
2.1.	Deddf Llywodraeth Cymru 1998 .....	2
2.2.	Deddf Llywodraeth Cymru 2006 .....	3
2.3.	Panel yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog.....	5
2.4.	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 .....	7
2.5.	Y Bil Drafft a'r ymgynghoriad.....	8
<b>3.</b>	<b>Amcanion y Bil</b> .....	<b>9</b>
<b>4.</b>	<b>Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil</b> .....	<b>10</b>
4.1.	Y gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r Bil drafft.....	10
<b>5.</b>	<b>Goblygiadau ariannol</b> .....	<b>11</b>
<b>6.</b>	<b>Ymateb cychwynol y rhanddeiliaid</b> .....	<b>12</b>



# Crynodeb o Fil – *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)*

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 30 Ionawr 2012

**Yr Aelod sy'n gyfrifol:** Rhodri Glyn Thomas AC, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ymgysylltu â dinasyddion, cyfathrebu, allgymorth cenedlaethol a rhyngwladol, a swyddogaethau a pholisi Comisiwn y Cynulliad yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

**Pwyllgor y Cynulliad sy'n craffu ar Gyfnod 1 y Bil:** Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 4 Mai 2012

Ers ei sefydlu ym 1999, mae wedi bod yn ofynnol i'r Cynulliad drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal ei fusnes. Fodd bynnag, mae datblygiadau deddfwriaethol diweddar mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wedi arwain at alwadau i wasanaethau dwyieithog y Cynulliad ei hun gael eu gosod ar sail statudol gadarnach.

Er mwyn cyflawni hyn, mae Comisiwn y Cynulliad wedi cyflwyno *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)* ("y Bil").<sup>1</sup> Nod y Bil yw diwygio darpariaethau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*<sup>2</sup> er mwyn:

- datgan mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad;
- datgan bod yn rhaid i'r ddwy iaith gael eu trin yn gyfartal wrth gynnal trafodion y Cynulliad; a
- rhoi gofyniad statudol ar Gomisiwn y Cynulliad i fabwysiadu a chyhoeddi "Cynllun Ieithoedd Swyddogol", y dylid ei adolygu bob pum mlynedd, a fyddai'n nodi'r camau y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r amrywiol ddyletswyddau statudol a amlinellir yn y Bil.

Dim ond i'r Cynulliad y mae'r Bil hwn yn gymwys, sef y corff seneddol sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Nid yw'r Bil felly yn gymwys i Lywodraeth Cymru nac unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad arall.

---

<sup>1</sup> *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)*

<sup>2</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32)

## 2. Llinell amser

Mae'r sefyllfa gyfreithiol bresennol ynghylch y defnydd o ieithoedd yn y Cynulliad yn deillio o'r darpariaethau a gynhwyswyd yn wreiddiol yn *Neddf Llywodraeth Cymru 1998*<sup>3</sup> ("Deddf 1998") ac yn ddiweddarach yn y Ddeddf a'i holynodd, sef *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*<sup>4</sup> ("Deddf 2006").

### 2.1. *Deddf Llywodraeth Cymru 1998*

Roedd Deddf 1998, a sefydlodd y Cynulliad fel un corff corfforaethol (a oedd yn cynnwys cangen ddeddfwriaethol a changen weithredol y llywodraeth) ym mis **Mai 1999**, yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality.<sup>5</sup>

Roedd y ddyletswydd hon yn seiliedig ar ddarpariaeth debyg a gynhwyswyd yn *Neddf yr Iaith Gymraeg 1993*<sup>6</sup> ("Deddf 1993") sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Iaith Gymraeg ddangos sut mae cyrff cyhoeddus yn bwriadu:

... gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.<sup>7</sup>

Er bod y Cynulliad wedi cynnal ei drafodion yn ddwyieithog o'r dechrau, ni wnaethpwyd ymdrechion i ffurfioli ei wasanaethau dwyieithog tan ddiwedd tymor cyntaf y Cynulliad. Roedd hyn yn deillio'n rhannol o ddatblygiadau a newidiadau'n gysylltiedig â strwythur mewnol y Cynulliad yn ystod blynyddoedd cyntaf datganoli.

Yn sgil profiadau cynharach y Cynulliad, penderfynwyd gwahanu'r gangen weithredol a'r gangen ddeddfwriaethol yn anffurfiol ym mis **Tachwedd 2001**.<sup>8</sup> Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyno'r term "Llywodraeth Cynulliad Cymru" i ddisgrifio polisiau a gweithredoedd y gangen weithredol a chreu "Swyddfa'r Llywydd" (a ailenwyd yn ddiweddarach yn "Wasanaeth Seneddol y Cynulliad" ym mis Mawrth 2004)<sup>9</sup> gyda'i chyllideb ei hun ac a oedd yn gyfrifol am swyddogaethau deddfwriaethol a swyddogaethau seneddol y Cynulliad

---

<sup>3</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* (Pennod 38)

<sup>4</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32)

<sup>5</sup> Ibid, Adran 47

<sup>6</sup> *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* (Pennod 38)

<sup>7</sup> Ibid, Adran 5(2)

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Key events in the developments of the National Assembly for Wales, First Assembly: 1999-2003*, tudalen 23

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Key events in the developments of the National Assembly for Wales, Second Assembly: 2003 - 2007*, tudalen 7



Yn sgil y rhaniad hwn, mabwysiadodd y gangen weithredol a'r gangen ddeddfwriaethol ddulliau gwahanol o ddarparu eu gwasanaethau dwyieithog. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Chynllun Iaith<sup>10</sup> ei hun, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ym mis **Hydref 2002** i ddisgrifio sut y byddai'n darparu gwasanaethau Gymraeg i'r cyhoedd a sut y byddai'n adlewyrchu ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg mewn meysydd polisi. Gan nad oedd y cynllun hwn yn cwmpasu swyddogaethau seneddol y Cynulliad, cynhyrchwyd datganiad anstatudol ar wahân ar wasanaethau dwyieithog gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a oedd yn amlinellu sut y byddai'n gweithredu darpariaethau ieithyddol Deddf 1998. Roedd y Datganiad yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn perthynas â:

- thrafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn, a phob gwybodaeth a dogfennaeth gysylltiedig;
- trafodion pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol (pwyllgorau pwnc, pwyllgorau rhanbarth, pwyllgorau sefydlog ac eraill) a phob gwybodaeth a dogfennaeth gysylltiedig;
- gwasanaeth gwybodaeth i'r cyhoedd Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a'r gwasanaethau i ymwelwyr a'r gwasanaethau addysg;
- rheolaeth o Ystâd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd ac mewn mannau eraill;
- presenoldeb y Cynulliad Cenedlaethol mewn digwyddiadau allanol fel yr Eisteddfod Genedlaethol; a
- gwasanaethau cyhoeddus eraill a ddarperir gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad.<sup>11</sup>

Roedd y Datganiad yn weithredol **rhwng 2002 a 2007** a chafodd ei fonitro drwy adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad a anfonwyd at Bwyllgor y Tŷ yn y Cynulliad.<sup>12</sup>

## **2.2. Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

Drwy Ddeddf 2006 - a ddaeth i rym ar ôl yr etholiadau ar gyfer y Trydydd Cynulliad ym mis **Mai 2007** - cafodd y gangen seneddol a'r gangen weithredol eu gwahanu'n ffurfiol a chrëwyd y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru (a ailenydd yn "Llywodraeth Cymru" yn ddiweddarach) fel dau sefydliad cyfreithiol gwahanol. Yn ogystal, sefydlodd Deddf 2006 Gomisiwn y Cynulliad fel y corff cyfreithiol a oedd yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau a'r staff sydd eu hangen at ddibenion y Cynulliad.

---

<sup>10</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Hydref 2002

<sup>11</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Datganiad ar Wasanaethau Dwyieithog*, diweddarwyd ym mis Mehefin 2006, paragraff 1.3

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cynllun Iaith Gymraeg*, Gorffennaf 2007, paragraff 2.1

O ran y defnydd o ieithoedd yn y Cynulliad, ailddatganodd Deddf 2006 y dyletswyddau a roddwyd ar y Cynulliad gan Ddeddf 1998 yn ogystal â gwneud darpariaethau i ddeddfau sylfaenol sy'n cael eu pasio gan y Cynulliad gael eu gwneud yn y ddwy iaith.<sup>13</sup> Yn ogystal estynnwyd yr egwyddor o drin y ddwy iaith yn gyfartal i gwmpasu swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad.<sup>14</sup>

O ganlyniad i'w statws cyfreithiol newydd fel corff ar wahân, penderfynodd Comisiwn y Cynulliad baratoi Cynllun Iaith Gymraeg yn wirfoddol o dan Adran 21 o Ddeddf 1993 ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf honno. Daeth i rym ar **11 Gorffennaf 2007** pan gafodd ei gymeradwyo gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.<sup>15</sup>

Roedd y Cynllun yn cwmpasu ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn perthynas â'i drafodion a'i swyddogaethau ymgysylltu drwy gyfrwng y gwasanaeth gwybodaeth i'r cyhoedd a'r gwasanaeth digwyddiadau allanol.<sup>16</sup> Roedd hefyd yn amlinellu'n fanwl sut y byddai'r Cynulliad yn ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg; sut y byddai'n hyrwyddo ei hun i'r cyhoedd fel sefydliad dwyieithog; a sut y byddai'n darparu'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Cynllun.<sup>17</sup>

Yn ogystal, cafodd rhagor o ymrwymïadau'n ymwneud â dyletswyddau ieithyddol y Cynulliad fel y nodir yn Neddf 2006 eu cynnwys yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer y Trydydd Cynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Rheol Sefydlog 8:** a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfleusterau cyfieithu ar y pryd fod ar gael yn y Cyfarfod Llawn er mwyn cynnal trafodion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- **Rheol Sefydlog 10:** a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfleusterau cyfieithu ar y pryd fod ar gael mewn pwyllgorau er mwyn cynnal trafodion drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac er mwyn i bersonau heblaw'r Aelodau annerch y pwyllgorau mewn ieithoedd eraill drwy gytuno ymlaen llaw gyda'r cadeirydd;
- **Rheol Sefydlog 23:** a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Fesurau arfaethedig y Cynulliad (deddfau sylfaenol) gael eu cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol; a
- **Rheol Sefydlog 30:** a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion trafodion y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau gael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y cyfarfod.

---

<sup>13</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32), adrannau 35(1) a 98(5)

<sup>14</sup> *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* (Pennod 32), paragraff 8(3) o Atodlen 2

<sup>15</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn*, 11 Gorffennaf 2007

<sup>16</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cynllun Iaith Gymraeg*, Gorffennaf 2007, paragraff 1.1

<sup>17</sup> Ibid

Yn ogystal roedd y Rheol Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi cofnod golygedig o'r trafodion air am air yn Gymraeg ac yn Saesneg cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob cyfarfod llawn. Yn ymarferol, cyhoeddwyd trawsgrifiadau dwyieithog o'r Cyfarfod Llawn o fewn 24 awr i ddiwedd y cyfarfod gan Wasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad.

O ran y pwyllgorau, roedd y Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi cofnod golygedig o'r trafodion air am air yn yr iaith a siaradwyd yn y pwyllgor sy'n cynnwys cofnod wedi'i olygu o unrhyw gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.<sup>18</sup>

### 2.3. Panel yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dwyieithog

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar **7 Gorffennaf 2009**,<sup>19</sup> cymeradwyodd Comisiwn y Cynulliad y gyllideb ddrafft ar gyfer 2010-2011 a oedd yn cynnwys arbedion o £250,000 y flwyddyn yn sgil newid yn y trefniadau ar gyfer cyfieithu cofnod y trafodion ar gyfer Cyfarfod Llawn y Cynulliad. Roedd hyn yn cynnwys cyfieithu cyfraniadau a wnaethpwyd yn Gymraeg i'r Saesneg ond nid i'r gwrthwyneb, yn unol â'r arfer o gynhyrchu trawsgrifiadau o bwyllgorau'r Cynulliad.<sup>20</sup>

Ar ôl i'r Comisiwn gytuno i'r cynnig hwn fodd bynnag, cafwyd gwrthwynebiad gan nifer o Aelodau'r Cynulliad. O ganlyniad, amlinellodd y Comisiwn gynigion newydd ar gyfer cynyddu ei wasanaethau dwyieithog mewn cyfarfod ar **21 Medi 2009**. Yng nghofnodion y cyfarfod nodir:

Bu'r Comisiwn yn trafod yr argymhellion i gyfieithu Cofnod y Trafodion o'r Saesneg i'r Gymraeg o fewn tri i ddeng niwrnod, i gyflwyno'r cyfleuster o gyfieithu trafodion yn ymwneud â deddfwriaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg, i sefydlu adolygiad annibynnol er mwyn archwilio dogfennau cyfathrebu dwyieithog cyn yr adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Iaith Gymraeg yn 2010, i gymryd camau i gynnig deddfwriaeth i roi sail statudol gadarn i statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg ac i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad yn amlinellu'r cynigion. Cytunodd y Comisiwn ar yr argymhellion gan bleidlais fwyafrifol.<sup>21</sup>

Cyhoeddwyd datganiad o'r fath gan y Comisiwn ar **30 Medi 2009**<sup>22</sup> a dechreuodd y Panel Adolygu ar ei waith ar **17 Rhagfyr 2009**.<sup>23</sup> Roedd ei gylch gorchwyl yn cynnwys ystyried sut yr oedd yr holl wasanaethau dwyieithog presennol yn cael eu darparu gan Gomisiwn y Cynulliad ac argymell ffordd ymlaen ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad a thu hwnt. Cynhaliodd y Panel Adolygu amrywiol gyfarfodydd a sesiynau tystiolaeth tan fis **Ebrill 2010** ac roedd ei drafodaethau'n cyd-daro â

---

<sup>18</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau'r Trydydd Cynulliad*

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnodion AC2009(4)*, 7 Gorffennaf 2009

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *AC2009(4) Papur 2 Cyllideb Ddrafft 2010-11*, 7 Gorffennaf 2009

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnodion AC2009(5)*, 21 Medi 2009, eitem 3

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Datganiad i'r Wasg: Datganiad ysgrifenedig gan Gomisiwn y Cynulliad ar y gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, 30 Medi 2009

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Datganiad i'r Wasg: Adolygiad annibynnol o wasanaethau dwyieithog y Cynulliad Cenedlaethol yn dechrau*, 17 Rhagfyr 2009

chyflwyno *Mesur arfaethedig y Gymraeg (Cymru)* gan Lywodraeth Cymru ar **4 Mawrth 2010** (gweler paragraff 2.4 isod am ragor o fanylion). Cyhoeddwyd adroddiad dilynol y Panel Adolygu, yn dwyn y teitl ***Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru***, ym mis **Mai 2010**.

Yn adroddiad y Panel Adolygu nodwyd bod “tair prif ddadl o blaid cyflwyno Mesur i ddelio’n benodol â’r defnydd o ieithoedd gan y Cynulliad”<sup>24</sup>, sef:

- (i) Gellid cyflwyno Mesur i fodloni amgylchiadau penodol y Cynulliad yn gynt nag y byddai ceisio cymhwyso’r cynigion ym Mesur Iaith y Llywodraeth er mwyn bodloni’r amgylchiadau hynny...
- (ii) Ar hyn o bryd mae darpariaethau manwl yn ymwneud â’r defnydd o’r iaith wedi’u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog. Gellir diwygio neu atal y rhain yn rhwydd. Byddai cynnwys y darpariaethau priodol mewn Mesur yn gwneud y darpariaethau hynny’n rhan annatod o’r Mesur ac yn rhoi statws uwch iddynt.
- (iii) Byddai Mesur penodol i’r Cynulliad yn osgoi’r trefniadau anfoddhaol o ran atebolrwydd sy’n bodoli ar hyn o bryd: Comisiwn, drwy ei Gynllun Iaith Gymraeg, sy’n atebol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, sy’n atebol i Weinidog, sy’n atebol i’r Cynulliad. Byddai Mesur arfaethedig y Llywodraeth, pe byddai’n gymwys i’r Cynulliad, yn gymwys yn yr un ffordd, gyda safonau’n cael eu defnyddio yn lle Cynlluniau a’r Comisiynydd Iaith yn cymryd lle’r Bwrdd.<sup>25</sup>

Daeth y Panel Adolygu, felly, i’r casgliad canlynol: “Rydym yn credu ei bod hi’n werth ymchwilio ymhellach i rinweddau *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd)*”.<sup>26</sup>

Mewn perthynas â chyfieithu Cofnod y Trafodion, argymhellodd y Panel Adolygu:

... bod y Cofnod testun gair am air o drafodion ond yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith / ieithoedd gwreiddiol a draddodwyd, ynghyd â chofnod o’r cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg, fel y’i traddodwyd yn y Siambr ar y pryd.<sup>27</sup>

Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn a phob un o’r argymhelliion eraill a wnaethpwyd gan y Panel Adolygu mewn cyfarfod ar **21 Mai 2010**.<sup>28</sup> O ganlyniad, daeth yr arfer o gyhoeddi Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog i ben ym mis **Gorffennaf 2010**.

Cafodd y Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chofnodi trafodion eu diwygio hefyd ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu er mwyn

---

<sup>24</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Panel Adolygu Annibynnol: Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Mai 2010, paragraff 25

<sup>25</sup> Ibid

<sup>26</sup> Ibid, paragraff 28

<sup>27</sup> Ibid, paragraff 68

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnodion Comisiwn y Cynulliad AC2010(3)*, 19 Mai 2010, eitem 2

sicrhau bod yr un dull cofnodi'n berthnasol i drafodion y pwyllgorau a thrafodion y Cyfarfod Lawn.<sup>29</sup>

Nid yw'r Rheolau Sefydlog sy'n weddill sy'n ymwneud ag annerch y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgorau yn Gymraeg ac yn Saesneg a'r gofynion i ddeddfau sylfaenol gael eu cyflwyno'n ddwyieithog yn y Cynulliad wedi newid.

#### 2.4. *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*

Ar 4 Mawrth 2010, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yr hyn a ddaeth yn *Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011* ("Mesur 2011").<sup>30</sup> Nod y Mesur - a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror 2011 (ond a ddaw i rym drwy orchmynion cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru) - yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol, sy'n cael ei lywodraethu i raddau helaeth gan Ddeddf 1993, ynghylch y defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn benodol mae'r Bil:

- yn gwneud darpariaethau ynghylch statws swyddogol y Gymraeg;
- yn sefydlu Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, sy'n disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- yn caniatáu ar gyfer datblygu "safonau" iaith sy'n cwmpasu integreiddio'r Gymraeg i'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd gan ystod o sefydliadau ac a fydd, ymhen amser, yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg;
- yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr ymyrrwyd â'u rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd; ac
- yn creu Tribiwnlys y Gymraeg sy'n gallu clywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd, ynghylch manylion y safonau neu ganlyniad yr ymchwiliadau.

Nid yw'r Cynulliad na Chomisiwn y Cynulliad wedi'u cynnwys fel cyrff y gallai "safonau" iaith, y gellir eu cyhoeddi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, fod yn gymwys iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa gyfansoddiadol lle nad oes gan Weinidogion Cymru unrhyw awdurdodaeth dros y Cynulliad Cenedlaethol.

O ganlyniad i'w hepgor o Fesur 2011 felly, dim ond y dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt gan Ddeddf 2006 mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg a oedd yn gymwys i'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad.

---

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Y Pwyllgor Busnes, Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog i baratoi ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad*, Mawrth 2011, tudalen 38

<sup>30</sup> *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* (nawm3)

## 2.5. Y Bil Drafft a'r ymgynghoriad

Yn ei gyfarfod ar **19 Mai 2010**, cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar y dull deddfwriaethol arfaethedig a amlinellwyd yn adroddiad y Panel Adolygu.<sup>31</sup> Ar ôl yr etholiad ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad ym mis **Mai 2011** cytunodd y Comisiwn newydd ar amserlen ymgynghori ar gyfer drafft o *Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)* ("y Bil drafft") a'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog drafft sy'n cyd-fynd ag ef mewn cyfarfod ar **14 Gorffennaf 2011**. Yn yr un cyfarfod cytunodd y Comisiwn mewn egwyddor ei fod am ddarparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog, pe bai modd dod o hyd i ateb hirdymor am gost resymol.<sup>32</sup> Yn y cyfamser fodd bynnag byddai'r arfer presennol o beidio â darparu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog yn parhau.<sup>33</sup>

Cyhoeddwyd y Bil a'r Cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad ar **3 Awst 2011**. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau oedd **14 Hydref 2011**. Cafwyd cyfanswm o 59 o ymatebion i'r ymgynghoriad.<sup>34</sup> Mae manylion llawn yr ymgynghoriad, yn cynnwys copïau o'r holl ymatebion a ddaeth i law, ar gael ar wefan y Cynulliad.<sup>35</sup>

Ystyriodd Comisiwn y Cynulliad y sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn ei gyfarfod ar **24 Tachwedd 2011** (rhestrir y newidiadau a wnaethpwyd i'r Bil yn sgil yr ymatebion hyn ym mharagraff 4.1). Yn y cyfarfod hwnnw penderfynodd y Comisiwn na fyddai dyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnwys ar wyneb y Bil.<sup>36</sup> Yn hytrach, cytunodd y Comisiwn y byddai Cofnod y Trafodion yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog o fewn 5 diwrnod gwaith o fis **Ionawr 2012** ymlaen drwy gyfuniad o gyfieithu peirianyddol a phrawffdarllen ar gost heb fod yn fwy na £95,000.<sup>37</sup>

Fodd bynnag, cytunodd y Comisiwn ar y diwygiadau arfaethedig eraill i'r Bil drafft a awgrymwyd gan yr ymatebwyr.<sup>38</sup> Cytunodd y Comisiwn hefyd y byddai Bil a Chynllun diwygiedig yn cael eu cyflwyno ym mis **Ionawr 2012** ac y byddai Rhodri Glyn Thomas AC yn cael ei awdurdodi i fod yn gyfrifol am y Bil.<sup>39</sup>

---

<sup>31</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnodion Comisiwn y Cynulliad AC2010\(3\)](#), 19 Mai 2010, eitem 2

<sup>32</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnodion Comisiwn y Cynulliad AC\(4\)2011\(3\)](#), 14 Gorffennaf 2011, Eitem 4

<sup>33</sup> Ibid

<sup>34</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Memorandwm Esboniadol*, Ionawr 2012, tudalen 7

<sup>35</sup> Gweler Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog Cyn y Broses Ddeddfu](#)

<sup>36</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Cofnodion Comisiwn y Cynulliad AC\(4\)2011\(6\)](#), 24 Tachwedd 2011, Eitem 2

<sup>37</sup> Ibid

<sup>38</sup> Ibid

<sup>39</sup> Ibid

### 3. Amcanion y Bil

Mae Memorandwm Esboniadol<sup>40</sup> y Comisiwn yn nodi mai prif amcanion y Bil yw:

- diweddarau'r fframwaith deddfwriaethol presennol sy'n llywodraethu gwasanaethau dwyieithog y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad, yn sgil y ffaith nad yw Mesur 2011 yn rhoi gofynion ar y Cynulliad a'i fod yn disodli'r system cynlluniau iaith a amlinellir yn Neddf 1993;
- rhoi sail statudol gadarn i ddyletswyddau'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog; a
- datblygu'r gwasanaethau dwyieithog sy'n cael eu darparu gan y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd yn ymrwymiad y Cynulliad i ddwyieithrwydd a fydd yn galluogi Comisiwn y Cynulliad i fod yn ddarparwr rhagorol o ran gwasanaethau o'r fath yn y cyd-destun seneddol.

---

<sup>40</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Memorandwm Esboniadol*, Ionawr 2012, tudalennau 5, 6, 15 a 16

## 4. Crynodeb o ddarpariaethau'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys tair adran sy'n diwygio Adran 35(1) a pharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Gellir crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil fel a ganlyn:

- Noda mai'r Gymraeg a'r Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad (Adran 1);
- Amlinella ddarpariaethau sy'n diffinio dyletswyddau Comisiwn y Cynulliad mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal (Adran 2); ac
- Mae'n darparu fframwaith ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny drwy Gynllun Ieithoedd Swyddogol (Adran 2).

O ganlyniad i'r darpariaethau hyn, bydd y Bil yn ei gwneud yn gliriach bod Comisiwn y Cynulliad yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad o ran ei wasanaethau dwyieithog yn hytrach nag i Gomisiynydd y Gymraeg a Gweinidogion Cymru fel sy'n wir am gyrrff cyhoeddus y gosodir "safonau" arnynt o dan Fesur 2011.

### 4.1. *Y gwahaniaethau rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd a'r Bil drafft*

Yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft, mae Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno i wneud nifer o newidiadau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd.<sup>41</sup>

Rhoddir crynodeb o'r prif newidiadau isod:

- Mae is-adran (1B) newydd wedi'i chynnwys o dan Adran 1(2) o'r Bil er mwyn ei gwneud yn glir bod gan bawb yr "hawl" i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad.
- Mae enw'r cynllun statudol yn y Bil wedi cael ei newid o "Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog" i "Cynllun Ieithoedd Swyddogol".
- Mae is-adran (7) newydd wedi'i chynnwys o dan Adran 2 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol gynnwys darpariaethau'n ymwneud â derbyn cwynion ynghylch methiannau o ran gweithredu'r Cynllun, ymchwilio i'r cwynion hynny a'u hystyried.
- Mae is-adran (8) newydd wedi'i chynnwys o dan Adran 2 o'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad osod adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad yn amlinellu sut y mae wedi gweithredu'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r is-adran (9)(a) newydd wedi'i diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adolygu'r Cynllun bob pum mlynedd (yn hytrach na phob pedair blynedd).

Fel y soniwyd ym mharagraff 2.5 uchod, cytunodd Comisiwn y Cynulliad ar 24 Tachwedd 2011 na fyddai dyletswydd i ddarparu Cofnod cwbl ddwyieithog o Drafodion y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnwys ar wyneb y Bil.

---

<sup>41</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [AC\(4\)2011\(6\) Papur 2 - Gwasanaethau Dwyieithog](#), 24 Tachwedd 2011



## 5. Goblygiadau ariannol

Yn y memorandwm esboniadol nodir y bydd y Bil yn “cynyddu’r angen i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu cynllun sy’n amlinellu ei wasanaethau dwyieithog.”<sup>42</sup> O ganlyniad, bydd y costau a fydd yn deillio o’r Bil yn “seiliedig ar gwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol”.<sup>43</sup> Wrth geisio amcangyfrif y costau hyn fodd bynnag, noda’r memorandwm:

Mae rhai anawsterau yn gysylltiedig â mesur costau darparu gwasanaethau dwyieithog gan fod y gwasanaethau hyn wedi bod yn rhan o waith arferol y Cynulliad ers ei sefydlu ym 1999.<sup>44</sup>

O ganlyniad, noda’r memorandwm:

Er mwyn ystyried unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â’r Bil, rydym wedi ceisio tynnu sylw at gostau rhai o’r gwasanaethau a ddarperir fel y cawsant eu hamlinellu yng Nghynllun Iaith Gymraeg 2007, a hefyd costau unrhyw wasanaethau ychwanegol a gaiff eu cynnwys yng Nghynllun Ieithoedd Swyddogol drafft 2012.<sup>45</sup>

Mae’r costau hyn yn cynnwys:

- **Cyfieithu (contractwyr allanol):** Amcangyfrifir mai cost y gwasanaeth hwn fydd £142,500 ar gyfer 2011/12 a £252,500 y flwyddyn ar gyfer 2012/13 a 2013/14. Mae’r costau ar gyfer 2012/13 a 2013/14 hefyd yn cynnwys y gost o gynhyrchu Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog o fewn pum diwrnod gwaith ar sail amcangyfrif o £95,000 y flwyddyn.
- **Cyfieithu (costau staffio):** Amcangyfrifir mai cost y gwasanaeth hwn fydd £530,000 ar gyfer 2011/12, 540,000 ar gyfer 2012/13 a £550,00 ar gyfer 2013/14.
- **Cyfieithu (gwasanaeth cyfieithu testun i Aelodau’r Cynulliad):** Amcangyfrifir mai cost y gwasanaeth hwn fydd £24,000 y flwyddyn ar gyfer 2011/12, 2012/13 a 2013/14.
- **Hyfforddiant iaith Gymraeg (i Aelodau’r Cynulliad a staff cymorth):** Amcangyfrifir mai cost yr hyfforddiant hwn fydd £15,200 ar gyfer 2011/12 ac £16,000 y flwyddyn ar gyfer 2012/13 a 2013/14.
- **Hyfforddiant iaith Gymraeg (i staff y Cynulliad):** Amcangyfrifir mai cost yr hyfforddiant hwn fydd £16,500 ar gyfer 2011/12 ac £17,000 y flwyddyn ar gyfer 2012/13 a 2013/14.

---

<sup>42</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori’r Aseiad Effaith Rheoleiddiol*, Ionawr 2012, paragraff 10.1

<sup>43</sup> Ibid

<sup>44</sup> Ibid

<sup>45</sup> Ibid, paragraff 10.3

## 6. Ymateb cychwynnol y rhanddeiliaid

Mewn ymateb i benderfyniad Comisiwn y Cynulliad ar 24 Tachwedd 2011 i gytuno y bydd Cofnod y Trafodion yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog o fewn 5 diwrnod gwaith o fis Ionawr 2012 ymlaen, croesawodd Bethan Williams, Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith , y penderfyniad yn betrus:

Rydyn ni'n croesawu'r newyddion y bydd Cofnod dwyieithog yn cael ei ddarparu eto, mae'n dangos bod ymgyrchu miloedd o bobl wedi dechrau dwyn ffrwyth. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau hefyd yn parhau i drin y Gymraeg yn israddol gan fod rhaid aros am bum diwrnod i gael fersiwn Cymraeg, yn groes i'r arfer rhwng 2005 a 2009. Yn amlwg, gan fod y Comisiwn wedi tanwario o tua £2 miliwn eleni, nid yw'r anghyfartaledd hwn yn fater o gost ond ewyllys gwleidyddol.

Mae hefyd yn achosi cryn bryder i ni fod y Comisiynwyr wedi gwrthod argymhelliad Bwrdd yr Iaith i sicrhau mewn statud y bydd yna Gofnod Cymraeg. Byddwn ni'n gofyn felly i ACau wella'r Bil Ieithoedd Swyddogol yn ystod y broses ddeddfu er mwyn cael y sicrhad hynny.<sup>46</sup>

Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd yn croesawu penderfyniad Comisiwn y Cynulliad i gynhyrchu Cofnod dwyieithog:

Rydyn ni fel Bwrdd yn hynod o falch o glywed fod Comisiwn y Cynulliad wedi dod i'r penderfyniad hwn. Fe gynhaliom ni ymchwiliad statudol i'r penderfyniad i beidio â darparu Cofnod cwbl ddwyieithog, ac rydym yn croesawu'r ffaith fod aelodau'r Comisiwn wedi gweithredu ar argymhellion yr ymchwiliad hwnnw yn fawr iawn.

Edrychwn ymlaen at weld effaith y datblygiad hwn ar sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn y Gymraeg ac ar ddatblygiad technoleg i gynyddu cofion cyfieithu. Diolch i aelodau'r Comisiwn a'r Llywydd am wneud y penderfyniad hwn, ac am drin y Gymraeg yn iaith swyddogol ym mhrif sefydliad democrataidd Cymru.<sup>47</sup>

---

<sup>46</sup> Gwefan Cymdeithas yr Iaith, *Datganiad i'r Wasg: Y Cynulliad i ddarparu cofnod dwyieithog unwaith eto*, 24 Tachwedd 2011

<sup>47</sup> Gwefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Datganiad i'r Wasg: Bwrdd yn croesawu Cofnod cwbl ddwyieithog yn y Cynulliad*, 24 Tachwedd 2011